**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (169)**
**Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1** - Cynnig i ethol Aelodau i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol

**Eitem 2** - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**Eitem 3** - Datganiad Busnes

Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Cwmni Pacio Caws Dyffryn Aeron

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.*
**Eitem 5** - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24. 25

*Cynnig i drafod y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân*
**Eitem 6** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005

**Eitem 7** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor ) 2005

*Cynnig i drafod y ddwy eitem nesaf gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân*
**Eitem 8** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005

**Eitem 9** - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005

**Eitem 10 - Dadl ar "Cynllun Oes - Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol"**

.....................................

## Eitem 1 - Cynnig i ethol Aelodau i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol

**NDM2677 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â pharagraffau 1(1), (3) a 4 Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r bobl a ganlyn i fod yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol:

1. Y Cyng Bob Dutton o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle'r Cyng Emlyn Davies o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2. Y Cyng Derek Vaughan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn lle'r Cyng Alex Aldridge o Gyngor Sir y Fflint.

.....................................

## Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

.....................................

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

.....................................

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Cwmni Pacio Caws Dyffryn Aeron

.....................................

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth.***

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24. 25

**NDM2678 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd

at Aelodau’r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005;
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005; a
iii) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol

Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol â’r gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005

**NDM2679 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu’r Awdurdod) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

**NDM2680 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005, a

2. Yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor ) 2005

**NDM2681 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); David Melding (Canol De Cymru); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn credu y dylai pwerau ELWa sy'n ymwneud ag ad-drefnu a chau chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gael eu heithrio pan drosglwyddir pwerau'n gyffredinol i'r Gweinidog, ac yn credu y dylid trosglwyddo'r pwerau hyn i'r Cynghorau Sirol a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, neu gynghorau o'r

fath a fyddai'n gweithredu ar y cyd.

**NDM2682 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 a

2. Yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005 ; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu gwneud y gwelliannau canlynol i Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005, y gosodwyd copi drafft ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

Dileu Adran 2 a chynnwys yn ei lle erthygl 2 newydd:

**Trosglwyddo Swyddogaethau'r Cyngor**

> 2 (1) -Yn amodol ar erthygl 9, a pharagraffau (2) a (3), trosglwyddo holl swyddogaethau'r Cyngor ac eithrio'r rheini a nodir ym mharagraff (2), i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad trosglwyddo.
>
> (2)Y swyddogaethau a eithrir y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw swyddogaethau'r Cyngor dan adran 113A ac Atodlenni 7 ac 7A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.
>
> (3) Yn amodol ar erthygl 9, trosglwyddo swyddogaethau a eithrir y Cyngor y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) i gynghorau sirol a chynghorau bwrdeistref sirol Cymru.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii), cyflwynwyd y Datganiad o Ddiben a Chostau canlynol ochr yn ochr â'r gwelliant uchod i'r Gorchymyn:**

**Diben**

Diben y gwelliant yw galluogi trosglwyddo'r pwer i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan AALl oddi wrth ELWa yn ôl i Gynghorau Sirol a Bwrdeistref Sirol.

**Cost**

Caiff llawer o'r gwaith a wneir i asesu a llunio opsiynau i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan AALl ei wneud gan staff Cynghorau, ar y cyd â staff ELWa. O'r herwydd mae'r staff a'r arbenigedd yn y maes hwn eisoes yn y cynghorau Sirol a Bwrdeistref Sirol ac ni fydd trosglwyddo'r pwer yn ôl iddynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar adnoddau.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005

**NDM2683 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu'r broses o uno Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth y Cynulliad wedi tanseilio morâl y gweithlu a chreu dryswch, ac na fydd yn gwella mentrau hyrwyddo twristiaeth Cymru.

**NDM2684 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005 a

2. Yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005 yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

..................................

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005

**NDM2685 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Yn credu bod y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu'r broses o uno Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth y Cynulliad wedi tanseilio morâl y gweithlu a chreu dryswch, ac na fydd yn gwella mentrau Datblygu Economaidd Cymru.

**NDM2686 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, a

2. Yn cymeradwyo gwneud Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2005;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2005 ; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 15 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr arfarniad rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y memorandwm cywiriadau

.....................................

## Eitem 10 - Dadl ar "Cynllun Oes - Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

NDM2687 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod angen newidiadau hirdymor a sylweddol yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ymateb i Adroddiad Wanless;

2. Yn croesawu Cynllun Oes fel fframwaith i wella'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru mewn modd radical.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2+3)**
**(4+ 5+6+7+8)**
**(9+10+11)**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:
'ond yn beirniadu Llywodraeth y Cynulliad am y modd dryslyd a darniog y mabwysiadodd agenda Wanless'

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:
'Yn cydnabod cyfraniad Cynllun Oes at roi agenda Wanless ar waith.'

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i adolygu effeithiolrwydd strwythurau a thargedau cyfredol y GIG yng ngoleuni Cynllun Oes.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu bod yn rhaid cyllido mentrau newydd a chyfrifoldebau newydd yn llawn, fel yr Agenda ar gyfer Newid, cyn eu trosglwyddo i gyrff iechyd.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i rewi ad-daliadau dyled hanesyddol cyrff iechyd os;

(i) bu tangyllido hanesyddol,

(ii) yw ad-daliadau’r ddyled yn peryglu’r gwasanaethau a ddarperir i gleifion,

(iii) yw’r cynlluniau ariannol cyfredol ac ar gyfer y dyfodol yn gynaliadwy ac y cytunir arnynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd:
Yn mynegi pryder bod polisïau iechyd Llywodraeth y Cynulliad yn gorfodi cleifion yng Nghymru i dalu am eu gofal iechyd eu hunain yn y sector preifat.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi’r gorau i roi cymhorthdal cyhoeddus i unrhyw bractis preifat a wneir yn eiddo’r GIG.

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiddymu taliadau cyfalaf a delir gan ymddiriedolaethau’r GIG.

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu er mwyn cyflawni’r weledigaeth uchelgeisiol sydd yn ‘Cynllun Oes' bod angen i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau radical ar unwaith i wella cyflwr cyfredol y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**Gwelliant 10-  Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Yn gresynu na ddatblygwyd y fframwaithgwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol cyfatebol ar yr un pryd.

**Gwelliant 11 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Yn nodi mai dim ond os caiff ei weithredu’n iawn y bydd Cynllun Oes yn arwain at welliannau, yn yr un modd â gydag unrhyw strategaeth.

Dogfennau Ategol - - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*
*Gellir gweld copïau o "Adolygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad y Tîm Prosiect a gynghorwyd gan Derek Wanless, Mehefin 2003, drwy ddilyn y dolenni isod:*
*Yn Saesneg: http://www.wales.gov.uk/subieconomics/content/hsc/review-e.pdf* -
*Yn Gymraeg: http://www.cymru.gov.uk/subieconomics/content/hsc/report-w.pdf -*

*Gellir gweld copïau o "Cynllun Oes: Creu gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd gyda'r Gorau yn y Byd yn yr 21ain Ganrif" drwy ddilyn y dolenni isod:*
*Yn Saesneg: http://www.wales.gov.uk/subihealth/content/keypubs/pdf/designed-life-e.pdf*
*Yn Gymraeg: http://www.cymru.gov.uk/subihealth/content/keypubs/pdf/designed-life-w.pdf*

......................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 23 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**